

Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
9 Mai 2024 am 10:05, yn 3.4 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

Rhan B

Yn bresennol		
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Yn bresennol:		
Olivia Angilley	(OA)	Hyfforddai Cyllid Graddedig
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Claire Green	(CG)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Chyflawni Ariannol a Swyddog Cyfrifol, Gweithrediaeth y GIG
Iain Hardcastle		Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro Rhwydweithiau a Chynllunio, Gweithrediaeth y GIG
Clare Jenkins	(CJ)	Is-Gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Alun Lloyd	(AL)	Ymgynghorydd Annibynnol
Gareth Lucey	(GL)	Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol, Archwilio Cymru
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Molly Simmonds	MS	Hyfforddai Cyllid Graddedig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Nick Wood	(NW)	Llywodraeth Cymru
Ymddiheuriadau		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro dros Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd - Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dechreuodd y cyfarfod am 12:00		



ACGC 9/2024.05.09 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb	
<p>Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.</p> <p>Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Gorffennaf 2024.</p> <p>Cofnodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan CB, AW a JW.</p>	
ACGC 10/2024.05.09	Datganiadau o Fuddiant
<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.</p>	
ACGC11/2024.05.09	Busnes Gweithrediaeth y GIG
ACGC 11.1/2024.05.09	Datganiad Blynyddol Gweithrediaeth y GIG
<p>Rhoddodd PV grynodedb i'r Pwyllgor o'r Trefniant Lletya gyda Gweithrediaeth y GIG a diffiniodd gyd-destun cyfreithiol y Trefniant Lletya i Weithrediaeth y GIG ac i Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Nid oes gan Weithrediaeth y GIG unrhyw hunaniaeth gyfreithiol ei hun ac mae ei holl swyddogaethau yn deillio o'r trefniant lletya ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae staff Gweithrediaeth y GIG yn gyflogeion i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae holl rwymedigaethau Gweithrediaeth y GIG yn eiddo i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amodol ar indemniadau a nodir yn y Trefniant Lletya. Gweithrediaeth y GIG sydd yn gyfrifol am osod ei raglen waith ac o ran ei pherfformiad a'i chyflawni mae'n atebol i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae gan y Trefniant Lletya llinellau atebolrwydd diffinedig i sicrhau llifoedd gwaith priodol a sicrwydd. Mae CG fel Swyddog Cyfrifol yn adrodd i Swyddog Atebol y Sefydliad Lletya, sef TC, Prif Weithredwr. Mae'r Trefniant Lletya yn cynnwys proses ar gyfer adolygu ac yn diffinio'n glir y gofyniad i Weithrediaeth y GIG fod yn gyfrifol am gydymffurfio â holl drefniadau llywodraethu Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Cynhaliwyd adolygiadau bob chwe mis (Tachwedd 2023, a Mai 2024). Roedd yn ofynnol i'r Swyddog Cyfrifol ymgysylltu â phob agwedd ar sicrwydd yn ymwneud â'r Trefniadau Lletya a byddai'n mynd i gyfarfodydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phwyllgorau'r Bwrdd yn unol â gofynion y Swyddog Atebol.</p> <p>Nodwyd bod dwy ddogfen yr oedd eu hangen ar y Pwyllgor i gymryd sicrwydd bod Gweithrediaeth y GIG wedi cydymffurfio â Fframwaith Llywodraethu Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef y Datganiad Cydymffurfiaeth Blynyddol a'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol a gynhwyswyd ar yr agenda heddiw.</p> <p>Cadarnhawyd bod angen y Datganiad Sicrwydd Blynyddol erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn i gadarnhau bod Gweithrediaeth y GIG yn cydymffurfio â'r trefniadau lletya ac i amlygu unrhyw feysydd sy'n peri pryder, risg neu ddiffyg cydymffurfio.</p>	



Cynhaliwyd adolygiad rhwng y Swyddog Cyfrifol a'r Swyddog Atebol ar 3 Mai 2024, a byddai'r cyfarfodydd hyn yn parhau bob chwarter.

Cyflwynodd CG Sicrwydd Blynyddol Gweithrediaeth y GIG i'r Pwyllgor, gan gynnwys cefndir byr i sefydlu Gweithrediaeth y GIG.

Nododd CG yn fyr rai ffigurau cydymffurfio ar gyfer y Pwyllgor:

- Roedd 71% o'r staff wedi cwblhau arfarniad blynyddol.
- Cyfradd salwch o 3.52%.
- 94% o Hyfforddiant Statudol a Gorfodol wedi cwblhau cydymffurfiaeth graidd.
- Wedi adrodd sefyllfa adennill costau.

Diolchodd CG i gydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd wedi hwyluso'r newid i Weithrediaeth y GIG ac roedd gwaith yn parhau i alinio polisiau a phrosesau â fformat Iechyd Cyhoeddus Cymru.

O ran y gofyniad i godi risgiau neu faterion cydymffurfio, hysbysodd CG y Pwyllgor am un mater etifeddiaeth y byddai IH yn mynd i'r afael ag ef yn Sesiwn Breifat yr Agenda.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai rhannu data yn cael ei reoli rhwng y ddau Sefydliad er mwyn hwyluso arferion gwaith effeithlon. Eglurodd CG fod Gweithrediaeth y GIG yn sefydliad sy'n tyfu ac y byddai TechWales yn ymuno â Gweithrediaeth y GIG ym mis Medi 2024. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gweithrediaeth y GIG wedi bod yn datblygu systemau craidd i'w hystemyn i rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cydnabu CG fod y broses o fudo i weinyddion newydd yn mynd rhagddi a bod llawer o staff yn dal i fod yn gysylltiedig â'u cyn-weinyddion a heb symud drosodd eto. Roedd hi hefyd yn ymwybodol nad oedd y mater rhannu data yn ymwneud â TG yn unig, a defnyddiodd yr enghraifft lle byddai Gwarcheidwad Caldicott yng Ngweithrediaeth y GIG yn adrodd i Warcheidwad Caldicott yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r Datganiad Cydymffurfiaeth a ddarparwyd ar gyfer 2023/2024 a'r diweddariad llafar a ddarparwyd. **Derbyniodd** y Pwyllgor y Datganiad o Gydymffurfiaeth ar gyfer 2024/2025 a chymerodd sicrwydd ohono.

Diolchodd NE i CG am y cyflwyniad.

ACGC 12/2024.05.09 | **Gweinyddiaeth i Gloi**

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:

10 Gorffennaf 2024

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth am y cyfarfod at LB.

Unrhyw Fater Arall

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:20